Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Briffio Polisi
Medi 2026

# Dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon sydd ar ddechrau eu gyrfa yng Nghymru

## Cyflwyniad

Ym mis Mawrth 2026, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru eu Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Addysg mewn Ysgolion, yn amlinellu camau gweithredu tymor byr, canolig a hir i gefnogi gweithlu addysg Cymru (Llywodraeth Cymru, 2026). Mae'r cynllun yn cydnabod yr heriau sy'n cael eu creu gan ddiwygiadau addysgol sylweddol fel Cwricwlwm Cymru a'r pwysau cynyddol o fewn y sector sy'n gysylltiedig â recriwtio a chadw athrawon, llesiant athrawon ac anghenion dysgwyr sy'n gynyddol gymhleth (Llywodraeth Cymru, 2026).

Mae'r Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Addysg mewn Ysgolion yn tynnu sylw at y ffaith bod mynediad cyson a thrwy gydol gyrfa at ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn ffactor hollbwysig yn natblygiad a phroffesiynoldeb ymarferwyr addysg yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2025a). Ar ben hynny, nododd adroddiad *'Future of Teaching in Wales'* yr OECD (OECD, 2025), a lywiodd ddatblygiad y Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Addysg mewn Ysgolion, bwysigrwydd dysgu proffesiynol a chefnogaeth i athrawon sydd ar ddechrau eu gyrfa. Bydd Dysgu, y corff arweinyddiaeth a dysgu proffesiynol cenedlaethol newydd ledled Cymru, yn chwarae rhan ganolog wrth gefnogi'r gwaith o ddarparu'r Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Addysg mewn Ysgolion a sicrhau ansawdd addysgu a dysgu yn ehangach.

Er mwyn helpu i gryfhau dysgu proffesiynol yng Nghymru, yn 2025 gofynnodd Llywodraeth Cymru i Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru archwilio dulliau rhyngwladol o ddysgu proffesiynol ar gyfer athrawon sydd ar ddechrau eu gyrfa.

I wneud hyn, comisiynodd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru arbenigwyr rhyngwladol i baratoi astudiaeth achos ar ddysgu proffesiynol ar gyfer athrawon sydd ar ddechrau eu gyrfa o chwe gwlad neu ranbarth. Yn ogystal, cynhaliodd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ddau weithdy i gael rhagor o wybodaeth a galluogi trafodaeth ar gymhwysedd y dulliau rhyngwladol i system addysg Cymru. Daeth y ddau weithdy â rhanddeiliaid allweddol o Lywodraeth Cymru, Dysgu a Chyngor y Gweithlu Addysg ynghyd, yn ogystal â'r arbenigwyr rhyngwladol a thri arbenigwr addysg o Gymru.[1] .

Mae'r briff polisi hwn yn cyflwyno trosolwg o'r cyd-destun polisi yn ogystal â'r canfyddiadau o'r astudiaethau achos a'r ystyriaethau posibl ar gyfer Llywodraeth Cymru, Dysgu, Cyngor y Gweithlu Addysg ac arweinwyr y system addysg.

[1] Yr Athro Alma Harris, Dr Alexandra Morgan a Lucy Crehan oedd y tri arbenigwr addysg o Gymru oedd yn rhan o'r prosiect hwn.

## Beth yw dysgu proffesiynol a pham ei fod yn bwysig?

Mae dysgu proffesiynol (sydd weithiau'n cael ei alw'n 'ddatblygiad proffesiynol') yn cyfeirio at 'gynnyrch gweithgareddau datblygu proffesiynol allanol ac sydd wedi'u hymgorffori yn y gweithle sy'n helpu athrawon i gaffael gwybodaeth newydd a'u helpu i wella eu harferion mewn ffyrdd a fydd o fudd i ddysgu myfyrwyr' (Bobis a Tripet, 2023, t518).

Yng Nghymru, mae gweithgareddau dysgu proffesiynol yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i: mentora, diwrnodau hyfforddiant mewn swydd, ymgysylltu â chymuned ddysgu broffesiynol, diwrnodau hyfforddi ffurfiol ac ymgysylltu â llwyfan dysgu proffesiynol ar-lein Cymru, Hwb (Llywodraeth Cymru, 2024). Yn ogystal â hyn, mae'r Meistr mewn Ymarfer Addysgol 'wedi bod yn ddatblygiad arwyddocaol yng Nghymru gan ddarparu cyswllt pwysig rhwng addysg gychwynnol athrawon a datblygiad proffesiynol cynnar […] sydd â'r potensial i sicrhau bod modd cefnogi dysgu proffesiynol athrawon mewn ffordd systematig drwy gydol eu gyrfaoedd' (Furlong, 2015, t18). Mae'r rhaglenni Doethuriaeth Broffesiynol mewn Addysg a fframweithiau'r Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol hefyd ar gael i athrawon sydd ar ddechrau eu gyrfa yng Nghymru (Hodgkin et al, 2024).

Mae digon o dystiolaeth i awgrymu bod dysgu proffesiynol effeithiol yn hanfodol i wella deilliannau myfyrwyr. Fe wnaeth ymchwil flaenorol gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ganfod fod datblygiad proffesiynol parhaus yn chwarae rhan bwysig o ran cau'r bwlch cyrhaeddiad (Day, 2015) ac yn cefnogi athrawon i ddiwallu anghenion eu dysgwyr (Fletcher-Wood, 2022).

Yn ogystal â bod yn gysylltiedig â chanlyniadau gwell i fyfyrwyr, mae tystiolaeth yn dangos y gallai dysgu proffesiynol athrawon fod yn gysylltiedig â chadw athrawon, neu â ffactorau a all effeithio ar gadw athrawon (Jerrim a Sims, 2019). Fe wnaeth y Sefydliad Gwaddol Addysg ganfod, drwy gyfres o asesiadau tystiolaeth cyflym, y gallai dysgu a chefnogaeth broffesiynol o ansawdd uchel gefnogi cadw athrawon, yn enwedig athrawon sydd newydd gymhwyso (Taylor et al, 2023). Yn seiliedig ar dystiolaeth o fanteision dysgu proffesiynol, mae modelu yn Lloegr yn awgrymu y gallai datblygiad proffesiynol effeithiol wella lles athrawon yn ogystal ag arwain at 12,000 yn fwy o athrawon cyfwerth ag amser llawn yn aros yn y proffesiwn yn flynyddol (Van den Brande a Zuccollo, 2021).

Yng Nghymru, mae dysgu proffesiynol hefyd yn hanfodol i gefnogi athrawon, yn enwedig y rhai sydd ar ddechrau eu gyrfa, i ymateb i'r diwygiadau sylweddol diweddar yn maes addysg. Er enghraifft, mae Cwricwlwm Cymru yn rhoi mwy o ymreolaeth i ysgolion ac athrawon dros y cwricwlwm ac yn ei gwneud yn ofynnol i athrawon gael yr hyder, yr wybodaeth a'r gallu i ddylunio a chyflwyno'r cwricwlwm (Evans, 2023) .

## Y ddarpariaeth dysgu proffesiynol bresennol yng Nghymru

Cyn y Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Addysg mewn Ysgolion, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ystod o fentrau dysgu proffesiynol cenedlaethol i gefnogi athrawon, yn enwedig yng nghyd-destun y diwygio presennol ym maes addysg . Yn ganolog i hyn mae ardal ddysgu broffesiynol bwrpasol ar Hwb, platfform dysgu ar-lein sydd ar gael i bob ysgol yng Nghymru, i ddarparu un pwynt mynediad at ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel, a lansiwyd yn 2023. Cefnogwyd hyn gan £12 miliwn mewn cyllid ychwanegol a ddyrannwyd yn uniongyrchol i ysgolion yn ystod 2023-24 i alluogi dysgu proffesiynol cydweithredol ar draws ysgolion a rhwydweithiau (Llywodraeth Cymru, 2024).

Y tu hwnt i'r adnoddau hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu sawl rhaglen strwythuredig. Er enghraifft, mae prosiect Camau i'r Dyfodol yn cefnogi ymarferwyr i feithrin y gallu i ddylunio cwricwlwm, yn ogystal â phroses gymeradwyo genedlaethol, dan arweiniad Panel Cymeradwyo Cenedlaethol, sy'n darparu sicrwydd ansawdd ar

gyfer rhaglenni dysgu proffesiynol. Mae sefydliadau addysg uwch hefyd yn parhau i chwarae rhan annatod, gyda'r Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol yn ehangu capasiti ymholiadau proffesiynol ar draws y system.

Yn benodol i athrawon sydd ar ddechrau eu gyrfa, mae gan athrawon sydd newydd gymhwyso hawl i ostyngiad o 20% yn eu hamserlen addysgu yn ystod y cyfnod sefydlu statudol: 10% ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu, a 10% pellach ar gyfer gweithgareddau dysgu proffesiynol fel arsylwi gan gymheiriaid a mentora. Yn dilyn y cyfnod sefydlu, mae'r Hawl Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol[2] yn hyrwyddo'r gefnogaeth y mae gan bob ymarferydd hawl iddi, gan gynnwys chwe diwrnod hyfforddiant mewn swydd y flwyddyn ysgol a mynediad at Basbortau Dysgu Proffesiynol i gefnogi myfyrio a datblygiad hunangyfeiriedig.



Mae Cymru wedi sefydlu seilwaith cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol, gan gynnwys hawliau diffiniedig, cyllid pwrpasol, a sylfaen adnoddau ar-lein sy'n ehangu (Llywodraeth Cymru, 2024). Mae ethos cydweithio sydd wedi'i wreiddio yn yr Hawl Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol yn adlewyrchu'r awydd am weledigaeth uchelgeisiol a chydlynol ar gyfer system addysg Cymru. Mae'n pwysleisio dull sy'n seiliedig ar ymchwil ac egwyddorion ysgol-fel-sefydliad-dysgu, lle mae ysgolion yn datblygu eu hymarfer yn barhaus trwy gydweithio a lle mae ymarferwyr yn ymgysylltu ag ymholiad myfyriol a defnyddio tystiolaeth ar y cyd i lywio ymarfer (Llywodraeth Cymru, 2025b).

Fodd bynnag, mae'r Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Addysg mewn Ysgolion yn cydnabod bod darpariaeth dysgu proffesiynol yn parhau i fod yn anghyson o ran ei hansawdd a'i heffaith. Unwaith mae'r cyfnod sefydlu yn dod i ben, mae'r cyfrifoldeb am ddysgu proffesiynol yn dibynnu'n fawr ar yr ysgolion unigol, gan arwain at amrywiad sylweddol yn y gefnogaeth y mae athrawon sydd ar ddechrau eu gyrfa yn ei derbyn (Hutt et al, 2024). Yn ogystal, mae ymchwil yn dangos bod pwysau llwyth gwaith yn aml yn lleihau'r amser sydd ar gael i ymarferwyr ymgysylltu'n ystyrlon â chyfleoedd dysgu proffesiynol (Llywodraeth Cymru, 2016). Mae hyn yn peri pryder penodol i athrawon sydd ar ddechrau eu gyrfa sy'n dal i sefydlu eu hymarfer. Mae'n debygol y bydd heriau fel llwyth gwaith uchel ac anghenion cymhleth disgyblion hyd yn oed yn fwy llethol i athrawon sydd ar ddechrau eu gyrfa, gan gyfrannu o bosibl at eu cyfradd gadawiad uchel (Admiraal et al, 2023). Felly, mae angen cryfhau dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon sydd ar ddechrau eu gyrfa yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2026).

## Tystiolaeth 'Beth sy'n gweithio' ynghylch dysgu proffesiynol yng Nghymru

Mae gan athrawon ddylanwad sylweddol ar gynnydd academaidd disgyblion, ond mae ansawdd yr addysgu yn amrywio yng Nghymru, fel yn y DU yn ehangach . Mae ymchwil yn awgrymu bod perthynas gadarnhaol rhwng cael eu haddysgu gan gyfres o athrawon cymwys sy'n perfformio'n dda a llwyddiant addysgol myfyrwyr yn y tymor byr a'r tymor hir (Lee, 2018). Mae tystiolaeth yn dangos bod dysgu proffesiynol sydd wedi'i gynllunio'n dda yn gwella ansawdd addysgu a deilliannau dysgu disgyblion (Day, 2015; Fletcher-Wood a

[2] Mae'r Hawl Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol wedi dod i ben

Zuccollo, 2020), ond mae'r effaith yn dibynnu'n fawr ar ddyluniad a chyflwyniad rhaglenni datblygiad proffesiynol. Mae hyn yn codi'r cwestiwn o beth sy'n cyfrif fel dysgu proffesiynol effeithiol o ansawdd uchel.

Paratowyd fframwaith cynhwysfawr ar gyfer dysgu proffesiynol o ansawdd uchel gan y Sefydliad Gwaddol Addysg yn eu hadroddiad canllaw 'Datblygiad Proffesiynol Effeithiol' (Sefydliad Gwaddol Addysg, 2021a). Drwy adolygiad systematig a meta-dadansoddiad, fe wnaeth yr adroddiad godio papurau yn trafod dysgu proffesiynol gan ddefnyddio set o 14 'mecanwaith' a oedd yn gwerthuso effeithiolrwydd pob rhaglen. Cafodd y 14 mecanwaith, a ddiffiniwyd fel 'egwyddorion cyffredinol sydd wedi'u profi'n empirig ynghylch sut mae pobl yn dysgu ac yn newid eu hymarfer', eu grwpio i bedwar diben sy'n allweddol i ddysgu proffesiynol effeithiol:

- helpu athrawon i gael mewnwelediadau newydd;
- dilyn ymddygiadau newydd sy'n canolbwyntio ar nodau;
- caffael sgiliau neu dechnegau newydd;
- ymgorffori'r newidiadau hynny yn ymarferol.

Gweler Atodiad 1 am ragor o fanylion am 14 Mecanwaith y Sefydliad Gwaddol Addysg ar gyfer Dysgu Proffesiynol Effeithiol.

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu perthynas glir rhwng nifer y mecanweithiau sy'n cael eu hymgorffori mewn rhaglenni datblygiad proffesiynol a'r effaith ar ddeilliannau disgyblion. Roedd gan raglenni nad oeddent yn ymgorffori unrhyw fecanweithiau feintiau effaith yn agos at sero, o'i gymharu â dau fis o gynnydd ychwanegol gan ddisgyblion mewn rhaglenni a oedd yn ymgorffori bron pob un o'r 14 mecanwaith. Yn hollbwysig, mae rhaglenni sy'n cynnwys o leiaf un mecanwaith o bob un o'r pedwar grŵp yn fwy tebygol o arwain at newidiadau hirdymor i ymarfer.



## Canfyddiadau astudiaethau achos

Roedd ein hymchwil yn cynnwys cefnogi Llywodraeth Cymru i ymgysylltu â thystiolaeth o bolisi ac ymarfer o'r tu allan i Gymru i gefnogi myfyrio ynghylch sut y gellid cryfhau dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon sydd ar ddechrau eu gyrfa yng Nghymru. I wneud hyn, comisiynodd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru arbenigwyr rhyngwladol i baratoi astudiaeth achos ar ddysgu proffesiynol ar gyfer athrawon sydd ar ddechrau eu gyrfa o: Awstralia, Gwlad y Basg, y Ffindir, Seland Newydd, Norwy a Singapore. Yn ogystal â hyn, cynhaliodd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ddau weithdy gyda rhanddeiliaid allweddol o Lywodraeth Cymru, Dysgu a Chyngor y Gweithlu Addysg, yn ogystal â'r arbenigwyr rhyngwladol a thri arbenigwr addysg o Gymru i alluogi trafodaeth ar gymhwysedd (neu beidio) dulliau rhyngwladol i system addysg Cymru.

Mae gan lawer o ardaloedd daearyddol yr astudiaethau achos broffil tebyg i Gymru, gan gynnwys o ran maint, dwyieithrwydd neu amlieithrwydd, a lefelau sylweddol o wledigrwydd. Fodd bynnag, er bod hyn yn rhoi persbectif defnyddiol ar ddulliau a allai fod yn effeithiol yng nghyd-destun Cymru, mae'n bwysig nodi nad yw'r dulliau ym mhob astudiaeth achos wedi'u bwriadu i gael eu dyblygu'n uniongyrchol yng Nghymru. Yn hytrach, maent yn tynnu sylw at nodweddion neu agweddau allweddol ar ddysgu proffesiynol ar gyfer athrawon sydd ar ddechrau eu gyrfa y gallai arweinwyr systemau yng Nghymru fod eisiau eu hystyried neu fyfyrio arnynt.

Mae'r dulliau sy'n cael eu hamlinellu ym mhob astudiaeth achos yn amrywiol, fodd bynnag maent yn tynnu sylw at nifer o egwyddorion cyffredin lefel uchel y mae arbenigwyr rhyngwladol wedi'u nodi fel rhai sy'n debygol o gyfrannu at system ddysgu broffesiynol effeithiol:

- Mae dysgu proffesiynol fwyaf effeithiol pan mae'n cael ei ystyried fel continwwm, sy'n golygu proses gydol gyrfa sy'n dechrau yn ystod addysg gychwynnol athrawon ac yn parhau drwy gydol cyfnod cynnar eu gyrfaoedd a'r tu hwnt;
- Mae sawl dull rhyngwladol yn cyfuno strwythurau lefel system sy'n galluogi hyblygrwydd lleol trwy sgaffaldiau cenedlaethol neu ranbarthol â rhaglenni sy'n cael eu cyflwyno'n lleol ac sy'n cael eu llunio gan ysgolion, awdurdodau lleol a rhwydweithiau proffesiynol;
- Mae dysgu sy'n seiliedig ar ymarfer yn helpu i sicrhau bod dysgu proffesiynol yn cael ei ymgorffori mewn arferion beunyddiol yn hytrach na dibynnu'n bennaf ar ddigwyddiadau hyfforddi ynysig;
- Gall mabwysiadu safbwynt athrawon sydd ar ddechrau eu gyrfa sy'n seiliedig ar asedau, gan gydnabod eu cyfraniadau at gymunedau ysgolion, eu helpu i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n fwy a'u cefnogi'n well.

Yn ogystal â'r egwyddorion cyffredin hyn, tynnodd awduron yr astudiaethau achos sylw at sawl arfer penodol a allai fod yn werth eu hystyried yng Nghymru:

- Cydnabuwyd bod darpariaeth mentoriaid hyfforddedig sy'n cael eu talu yn elfen allweddol o ddarpariaeth dysgu proffesiynol ar draws nifer o astudiaethau achos. Gallai Cymru archwilio’r syniad o sefydlu rhaglen fentora fwy ffurfiol yn hytrach na’r mentora amrywiol iawn sydd ar waith ar hyn o bryd;
- Mae dysgu proffesiynol cydweithredol yn nodwedd amlwg arall ymhlith yr astudiaethau achos. I Gymru, mae'r astudiaethau achos yn tynnu sylw at y ffaith y gallai cryfhau cyfleoedd ar gyfer cydweithio traws-ysgolion, yn enwedig o fewn cyd-destunau gwledig, gefnogi'r gwaith o rannu arbenigedd a gwybodaeth broffesiynol ar draws y sector;
- Mae myfyrio strwythuredig wedi'i nodi fel mecanwaith allweddol sy'n cysylltu dysgu proffesiynol â barn broffesiynol a gwneud penderfyniadau yn yr ystafell ddosbarth. Byddai modd ymgorffori myfyrio ymhellach ym mhrofiadau athrawon sydd ar ddechrau eu gyrfa a'i integreiddio'n fwy cyson ar draws ysgolion yng Nghymru trwy ymarferion myfyriol strwythuredig;
- Gallai dysgu proffesiynol amlieithog sy'n berthnasol i gyd-destun yr ystafell ddosbarth gryfhau blaenoriaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog Cymru gyda ffocws cryfach ar addysgeg a chymhwyso ymarferol yn hytrach nag ar hyfedredd iaith yn unig.

Yn ein **hadroddiad terfynol**, lle bo'n berthnasol, rydym hefyd yn tynnu sylw at y mecanweithiau'r Sefydliad Gwaddol Addysg sy'n berthnasol i'r egwyddorion hyn.

## Goblygiadau i Gymru

Ar adeg o ddiwygio sylweddol ym maes addysg a phwysau cynyddol o fewn y sector, mae tystiolaeth yn awgrymu bod angen clir am ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel ar gyfer athrawon sydd ar ddechrau eu gyrfa, yng Nghymru. Er bod tystiolaeth yn awgrymu bod ansawdd dysgu proffesiynol yn ddibynnol iawn ar ddyluniad a gweithrediad (Hutt et al, 2024), mae'r ddarpariaeth dysgu proffesiynol bresennol yn rhoi cyfrifoldeb sylweddol ar yr ysgol unigol unwaith mae'r cyfnod sefydlu yn dod i ben.

Wedi'u nodi yn yr astudiaethau achos rhyngwladol mae nifer o egwyddorion ac ymarferion cyffredin a all gyda'i gilydd gynnig cipolwg gwerthfawr ar sut i ddatblygu a chefnogi dysgu proffesiynol effeithiol yng Nghymru.

Fodd bynnag, ni ddylid ystyried darparu dysgu proffesiynol o ansawdd uchel fel ateb unigol i'r heriau sy'n wynebu'r sector. Yn wir, mae mynd i'r afael â'r materion strwythurol a'r materion gweithlu ehangach sy'n wynebu'r proffesiwn yn

hanfodol os yw dysgu proffesiynol o ansawdd uchel i gael ei ddatblygu, ei gynnal a'i ymgysylltu'n ystyrlon drwy gydol gyrfaoedd athrawon. Serch hynny, mae tystiolaeth yn awgrymu bod dysgu proffesiynol sydd wedi'i gynllunio'n dda yn gallu cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion a chadw athrawon, neu ar ffactorau sy'n gysylltiedig â chadw athrawon. Yn ogystal, mae cyflwyno’r Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Addysg mewn Ysgolion, sefydlu Dysgu, a’r dirwedd weithredu ehangach ar gyfer athrawon sydd wedi'i bennu gan y Cwricwlwm i Gymru yn gyfle i Gymru ystyried y ddarpariaeth dysgu proffesiynol bresennol ac ystyried sut mae modd ei chryfhau a’i gwella yn y blynyddoedd i ddod.

## Atodiad 1: Mecanweithiau'r Sefydliad Gwaddol Addysg ar gyfer Dysgu Proffesiynol Effeithiol

| | Adeiladu gwybodaeth | Ysgogi athrawon | Datblygu technegau addysgu | Ymgorffori ymarfer |
|---|---|---|---|---|
| **Mecanwaith** | • Rheoli llwyth gwybyddol<br>• Ailedrych ar ddysgu blaenorol | • Gosod a chytuno ar nodau<br>• Cyflwyno gwybodaeth o ffynhonnell gredadwy<br>• Darparu cadarnhad ac atgyfnerthiad ar ôl cynnydd | • Cyfarwyddyd<br>• Cymorth cymdeithasol<br>• Modelu<br>• Monitro ac adborth<br>• Ymarfer | • Darparu awgrymiadau a chynghorion<br>• Ysgogi cynllunio gweithredu<br>• Annog monitro<br>• Ysgogi ailadrodd penodol i gyd-destun |

## Cyfeiriadau


Admiraal, W., Roberg, K., Wiers-Jessen, J. a Saab, N. (2023). **Mind the gap: Early-career teachers' level of preparedness, professional development, working conditions, and feelings of distress.** Social Psychology of Education, 26, 1759-1787. Cyrchwyd o https://doi.org/10.1007/s11218-023-09819-6

Bobis, J., a Tripet, K. (2023). **Situating teacher learning in the mathematics classroom and everyday practice.** International Encyclopedia of Education (Pedwerydd Argraffiad), 518-527. Cyrchwyd o: https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/B9780128186305040628?fr=RR-2&ref=pdf_download&rr=96f7258c8bd677a1

Chow, A. (2016). **Teacher learning communities: the landscape of subject leadership.** International Journal of Educational Management, 30(2), 287-307. Cyrchwyd o: https://www.sciencedirect.com/org/science/article/abs/pii/S0951354X16000375

Day, C. (2015). **The Role of Continuous Professional Development in Closing the Gap in Educational Attainment.** Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Cyrchwyd o: https://wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2018/04/PPIW-Report-The-Role-of-CPD-in-Closing-the-Attainment-Gap-REVISED-docx.pdf

Sefydliad Gwaddol Addysg. (2021a). **Effective Professional Development Guidance Report.** Cyrchwyd o: https://d2tic4wvo1iusb.cloudfront.net/production/eef-guidance-reports/effective-professional-development/EEF-Effective-Professional-Development-Guidance-Report.pdf

Sefydliad Gwaddol Addysg. (2021b). **What are the Characteristics of Effective Professional Development? A Systematic Review and Meta-analysis.** Cyrchwyd o: https://d2tic4wvo1iusb.cloudfront.net/production/documents/pages/Teacher-professional-development.pdf?v=1782464974

Sefydliad Gwaddol Addysg. (2023). **Early Career Framework Early Roll-out – trial.**

Cyrchwyd o: https://educationendowmentfoundation.org.uk/projects-and-evaluation/projects/early-career-framework-early-roll-out

Evans, G. (2023). **A new dawn or a false hope? Exploring the early implementation of Curriculum for Wales**. Education Inquiry, pp 1-15. Cyrchwyd o: https://doi.org/10.1080/20004508.2023.2297506

Fletcher-Wood, H. a Zuccollo, J. (2020). **The effects of high-quality professional development on teachers and students: A rapid review and meta-analysis.** Wellcome. Cyrchwyd o: https://assets.ctfassets.net/pc40tpn1u6ef/file-180660/3047a08a01abc1b4067dae136620af54/EPI-Wellcome_CPD-Review__2020.pdf

Furlong, J. (2015). **Addysgu Athrawon Yfory.** Cyrchwyd o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/teaching-tomorrow%E2%80%99s-teachers.pdf

Hodgkin, K. Davis, S. McInch, A., a Littlewood, J. (2024). **Exploring the 'learner journey' of students in undertaking a professional doctorate in Wales.** Research in Post-Compulsory Education, 29(3), 408-427. Cyrchwyd o: https://www.tandfonline.com/doi/abs/10.1080/13596748.2024.2371647

Hutt, M., Smith, K., a Jones, K. (2024). **Professional learning in education: policy and practice in Wales since devolution.** Cyrchwyd o: https://pure.southwales.ac.uk/ws/portalfiles/portal/29120149/04_Professional_Learning_in_Education.pdf

Jerrim, J., a Sims, S. (2018). **The Teaching and Learning International Survey (TALIS) 2018.** UCL, Institute of Education. Cyrchwyd o: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5f6484d9e90e0759f55755ed/TALIS_2018_research_brief.pdf

Joyce, B., a Showers, B. (1981). **Transfer of training: The contribution of ''coaching''.** Journal of Education, 163(2), 163-172. Cyrchwyd o: https://journals.sagepub.com/doi/10.1177/002205748116300208

Lee, S. (2018). **Pulling Back the Curtain: Revealing the Cumulative Importance of High-Performing, Highly Qualified Teachers on Students' Educational Outcome.** Educational Evaluation and Policy Analysis, 40(3). Cyrchwyd o: https://journals.sagepub.com/doi/abs/10.3102/0162373718769379

Lewis, C., Perry, R., a Murata, A. (2006). **How should research contribute to instructional improvement? The case of lesson study.** Educational Researcher, 35(3), 3-14. Cyrchwyd o: https://www.researchgate.net/publication/242574847_How_Should_Research_Contribute_to_Instructional_Improvement_The_Case_of_Lesson_Study

OECD. (2025). **Constructing Scenarios for the Future of Teaching in Wales.** OECD. Cyrchwyd o: https://www.oecd.org/en/publications/constructing-scenarios-for-the-future-of-teaching-in-wales_2e0ac4e6-en/full-report.html

Taylor, B., Hardman, M., Riordan, S., Pillinger, C., Moss, G. (2023). **Teacher quality, recruitment, and retention: Rapid Evidence Assessment.** Education Endowment Fund. Cyrchwyd o: https://d2tic4wvo1iusb.cloudfront.net/production/documents/Teacher-quality-recruitment-and-retention-lit-review-Final.pdf?v=1754903980

Van den Brande, J., a Zuccollo, J. (2021). **The effects of high-quality professional development on teachers and students: A cost-benefit analysis.** Education Policy Institute. Cyrchwyd o: https://epi.org.uk/wp-content/uploads/2021/04/EPI-C PD-entitlement-cost-benefit-analysis.2021.pdf

Llywodraeth Cymru. (2016). **Initial teacher education (ITE).** Cyrchwyd o: https://www.llyw.cymru/addysg-athro-cychwynnol#15461

Llywodraeth Cymru. (2024). **Cwricwlwm i Gymru: adroddiad blynyddol 2024.** Cyrchwyd o: https://www.llyw.cymru/cwricwlwm-i-gymru-adroddiad-blynyddol-2024

Llywodraeth Cymru. (2025a). **Datganiad Ysgrifenedig: Cynllun strategol ar gyfer y gweithlu addysg.** Cyrchwyd o: https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cynllun-strategol-ar-gyfer-y-gweithlu-addysg

Llywodraeth Cymru. (2025b). **Dull newydd o ddatblygu athrawon yng Nghymru.** Cyrchwyd o: https://addysgcymru.blog.llyw.cymru/2025/07/07/dull-newydd-o-ddatblygu-athrawon-yng-nghymru/

Llywodraeth Cymru. (2026). **Cynllun strategol ar gyfer y gweithlu addysg mewn ysgolion.** Cyrchwyd o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2026-03/cynllun-strategol-ar-gyfer-y-gweithlu-addysg-mewn-ysgolion-final.pdf

## Gwybodaeth am Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y Ganolfan, rydym yn cydweithio ag arbenigwyr polisi arweiniol i ddarparu tystiolaeth o ansawdd uchel a chyngor annibynnol i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru, sy'n eu helpu i wella penderfyniadau a chanlyniadau o ran polisi.

Mae'r Ganolfan, a ariennir gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru, wedi'i lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac yn aelod o Rwydwaith What Works y DU.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:

**Rosalind Phillips**

+44 (0)29 2087 5345

Rosalind.phillips@wcpp.

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Prifysgol Caerdydd, sbarc | spark, Ffordd Maindy, Caerdydd, CF24 4HQ

www.wcpp.org.uk/cy

info@wcpp.org.uk

029 2087 5345

www.linkedin.com/company/wcfpp

Cardiff University Prifysgol Caerdydd

Economic and Social Research Council

Llywodraeth Cymru Welsh Government